Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

P-06-1184: Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Medi 2021
Petitions Committee | 20 September 2021

Cyfeirnod: SR21/0634-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1184

Teitl y ddeiseb: Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

Geiriad y ddeiseb: Mae plwm yn fetel gwenwynig ac yn wenwyn cryf iawn, ond eto i gyd mae dros 6,000 tunnell yn cael eu tanio at adar hela bob blwyddyn yn y DU. Pe bai unrhyw ddinesydd yn gollwng miloedd o dunelli o wenwyn yn fwriadol i gefn gwlad Cymru, byddai'n cael ei hun o flaen ei well mewn llys barn, fel sy'n briodol.

Mae adar yn aml yn camgymryd pelenni saethu bach am raean neu hadau ac yn eu hamlyncu, gan ddioddef marwolaethau poenus o ganlyniad. Mae adar sy'n marw fel arfer yn cael eu cipio'n gyflym gan ysglyfaethwyr – sy'n golygu eu bod nhw'n marw o olwg y cyhoedd.

Yn draddodiadol mae'r mwyafrif o ffrwydron – bwledi, pelenni gwn saethu a phelenni gwn aer, wedi'u gwneud â phlwm.

Mae plwm yn effeithio ar y rhan fwyaf o systemau'r corff mewn anifeiliaid, gan gynnwys y systemau nerfol a chylchrediad y gwaed, a gall dod i gysylltiad ag ef ar lefel isel effeithio ar system imiwnedd ac ymddygiad adar.

Mewn rhai amgylchiadau, gall llyncu un belen plwm, hyd yn oed, ladd aderyn.

Mae consortiwm o sefydliadau saethu bellach yn cefnogi newid i ffrwydron di-blwm at ddefnydd pawb sy'n saethu prae byw gyda gynnau yn y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r difrod y mae plwm yn ei wneud i'n hamgylchedd, ond rydym o'r farn bod yr argyfwng ecolegol yn mynnu ein bod yn gosod gwaharddiad ar unwaith ar ffrwydron plwm o bob math. At hynny, credwn fod yn rhaid i'r gwaharddiad gynnwys saethiadau clai ac nid "prae byw" yn unig, gan fod y ffrwydron plwm a wastraffwyd yn dal i aros yn yr amgylchedd.

Mae Barry Action yn grŵp cadwraeth gwirfoddol bach sydd wedi'i leoli yn un o drefi arfordirol de Cymru, Barri.

1. Cefndir

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi dechrau ar waith i gyfyngu ymhellach ar y defnydd o blwm o dan gyfarwyddyd y system Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau y DU (UK REACH).

UK REACH yw system rheoleiddio cemegau newydd y DU sy'n ceisio caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar reoleiddio cemegau ar sail y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael, gan sicrhau bod cemegau yn parhau i gael eu defnyddio a'u rheoli'n ddiogel. Mae'n disodli system REACH yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd Llywodraeth y DU i Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), i ddechrau proses o ddwy flynedd i: adolygu'r dystiolaeth; lansio ymgynghoriad cyhoeddus; a chynnig opsiynau o ran cyfyngiadau ar blwm.

Dywedodd Rebecca Pow, Gweinidog yr Amgylchedd y DU:

> Addressing the impacts of lead ammunition will mark a significant step forward in helping to protect wildlife, people, and the environment.
>
> This is a welcome development for our new chemicals framework, and will help ensure a sustainable relationship between shooting and conservation.

Mae rhai cyfyngiadau yng Nghymru ar hyn o bryd o dan *Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002* ar ddefnyddio pelenni plwm ar gyfer saethu gyda gwn.

Mae testun y ddeiseb yn cyfeirio at ymgyrch gan sefydliadau saethu a sefydliadau gwledig (a lansiwyd fis Chwefror 2020) sy'n galw am **waharddiad gwirfoddol** ar bob plastig defnydd sengl, (gan gynnwys wadin a chasys cetris), yn ogystal â gwaharddiad gwirfoddol ar belenni plwm, i gyd o fewn 5 mlynedd.

Ymatebodd pedwar gweithgynhyrchydd o bwys o ran cetris gwn gan ddweud y byddai rhoi diwedd ar blwm a phlastig mewn bwledi yn 'amhosibl' o fewn pum mlynedd.

Ar lefel yr UE, cyflwynwyd rheoliad yn diwygio REACH yr UE ar 25 Ionawr 2021 yn gwahardd pelenni plwm o ardaloedd gwlyptiroedd. Daw'r rheoliad i rym ar 15 Chwefror 2023. Mae'r diwygio yn arwain at wahardd rhestr o weithgareddau sy'n cynnwys defnyddio pelenni plwm mewn gwlyptiroedd neu o fewn 100 medr iddynt.

Mae Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) wedi disgrifio cyfyngiad yr UE fel un 'cwbl anorfodadwy' ac sy'n risg i'r trosglwyddiad gwirfoddol gan y sefydliadau saethu i fwledi cynaliadwy a gymeradwyir, a ddisgrifir yn nhestun y ddeiseb.

Mae'r wefan ShootingUK yn nodi gwaharddiadau ar belenni plwm sy'n bodoli mewn gwledydd eraill.

Mae'r Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlyptiroedd (WWT) yn adrodd y gall plwm fod yn wenwynig i anifeiliaid a bod rhwng 50,000 a 100,000 o adar gwyllt yn marw bob blwyddyn am eu bod wedi amlyncu plwm o belenni a ddefnyddiwyd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhybuddio bod bwyta plwm yn niweidiol i fodau dynol ac y dylai unrhyw un sy'n bwyta cig adar hela a saethwyd â phelenni plwm fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd llawer iawn o blwm, yn enwedig i blant a menywod beichiog.

Ymrwymodd Cymdeithas Genedlaethol Delwyr Adar Hela (Lloegr) (ym mis Mawrth 2020) i gyrchu'r holl helgig plu a ffwr yn ogystal â chig carw a baedd gwyllt o gadwyni cyflenwi di-blwm o fis Gorffennaf 2022 ymlaen.

Ymrwymodd rhai archfarchnadoedd, fel Waitrose, eisoes i beidio â gwerthu cig hela wedi'i halogi â bwledi plwm mwyach.

Mae pedwar prif ddewis amgen i saethu plwm ar hyn o bryd, sef:

- Dur;
- Bismuth;
- Matrics Twngsten; a
- 'Chymysgeddau' fel Bioammo.

Mae'r papur briffio 'Pelenni dur a'r dewisiadau amgen i blwm' yn darparu rhagor o fanylion.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig ym mis Mawrth 2021 dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd:

> The Welsh Government is concerned by the harm being done through the deposition of lead ammunition over both land and water, both to wild animals and to humans ingesting meat contaminated with lead shot. We are, therefore, working with the other GB administrations to initiate a restriction on the use of lead shot in the first work programme of the new UK Registration, Evaluation, Authorisation & restriction of Chemicals (REACH) regime, which replaces EU REACH.

Mae llythyr y Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n ymwneud â'r ddeiseb hon (dyddiedig mis Medi 2021) yn ailadrodd y sefyllfa hon ac yn tynnu sylw at y broses o gyfyngu ar belenni plwm y dechreuwyd arni drwy Raglen waith REACH y DU eleni.

3. Camau gan Senedd Cymru

Ni fu dim camau sylweddol gan y Senedd yn y maes hwn.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.